

# PLANHIGFA ARBENIGOL AR FFERM CRÛG

CALU TAFLEN  
FFEITHIAU FFERM  
ARDDANGOSIAD  
Mawrth 2009



## RHAGARWEINIAD

Planhigfa yw Fferm Crûg sy'n tyfu planhigion addurniadol prin ac anarferol. Fe'i lleolir yn ymyl Caernarfon yng Ngogledd Orllewin Cymru. Cychwynnwyd ar y newid i arddwriaeth yn 1991. Cyn hynny roedd y fferm yn cynhyrchu cig eidion a grawnfwydydd.

Mae Fferm Crûg yn cael ei rhedeg gan Sue a Bleddyn Wyn Jones, y perchnogion. Maent yn teithio'r byd i chwilio am blanhigion prin ac anarferol i'w meithrin. Ni welwyd rhai o'r planhigion yn Fferm Crûg erioed o'r blaen mewn planhigfa. Mae Sue a Bleddyn yn dal trwydded sy'n eu galluogi i ddod â hadau a phlanhigion i'r wlad o'r Dwyrain Pell, y Dwyrain Canol, De America ac Asia. Rhaid i'r holl hadau a phlanhigion a gludir yn ôl fod mewn cwarantyn am 12 mis ar ôl dod i mewn i'r DU.



## SAFLE

Mae Fferm Crûg tua 60m uwchlaw lefel gymedrig y môr a llai na milltir o arfordir Afon Menai. Mae'r safle mewn lleoliad gwyntog iawn. Lom cleiog yw'r pridd naturiol – er bod llawer o blanhigion yn cael eu tyfu mewn cyfryngau tyfu pwrpasol, yn hytrach nag yn syth yn y pridd.

Mewn lleoliad gwyntog o'r fath mae cysgod yn hanfodol. Felly gwneir defnydd helaeth o goed a gwrychoedd i amgylchynu a chysgodi'r safle. Plannwyd rhai o'r coed ar y safle o dan y cynllun Gwell Coedwigoedd i Gymru. Mae'r goedlan yn cynnig rhywfaint o gysgod hefyd rhag eithafoedd gwres ac oerfel a thyfir llawer o blanhigion yng nghysgod brith y coedlannau.

Plennir peth stoc allan yn y cae cyn ei werthu ymlaen. Cymysg yw'r amodau amgylcheddol yn y cae a ddefnyddir: Mae un pen yn wlyb iawn, a'r llall yn llawer sychach. Defnyddir yr amodau amgylcheddol hyn er budd y planhigion wrth eu plannu allan. Plennir planhigion mwy a phlanhigion sy'n hoffi lleithder yn y manau gwlypach.

## TYFU

Gan fod Fferm Crûg yn gweithio gyda phlanhigion mor anarferol, ni fabwysiadwyd arferion tyfu penodol. Mae'r rhan fwyaf o blanhigion ar y safle'n cael eu tyfu o had, er y defnyddir technegau eraill hefyd.

Datblygwyd dull unigryw o egino hadau ar Fferm Crûg gan ddefnyddio tybiau marjerin plastig gyda chaeadau tryloyw. Heuir yr hadau mewn vermiculite yn y tybiau. Cedwir y tybiau mewn pentyrrau mewn cratiau mewn man cysgodol ac edrychir arnynt unwaith yr wythnos yn ystod y gaeaf a ddwywaith yr wythnos yn ystod misoedd yr haf. Rhoddir dŵr i'r tybiau unwaith y flwyddyn. Gall rhai hadau gymryd hyd at wyth mlynedd i egino, felly mae'n hollbwysig bod cofnodion manwl gywir yn cael eu cadw, sy'n gysylltiedig â'r labeli ar y tybiau. Oherwydd bod y caeadau'n dryloyw mae'n hawdd gweld pan fydd hadau'n egino. Cyn gynted ag y bydd yr hadau wedi egino, cânt eu hailblannu a'u trosglwyddo i bolytwnel deugroen i barhau i dyfu.

I ddechrau mewnforir y rhan fwyaf o'r hadau a ddefnyddir i dyfu. Ond hefyd tyfir rhai planhigion fel mam-blanhigion, sy'n darparu ffynhonnell hadau parhaus i dyfu planhigion newydd. Cedwir y mam-blanhigion mewn cae ar wahân i'r brif ardal dyfu, er mwyn lleihau'r risg o hybrideiddio.

## TYFU MEWN TWNELI





Gwneir defnydd helaeth o bolytwneli o bob math a maint. Trefnwyd pob twnnel i ddarparu tymheredd gwahanol, a gwahanol amodau golau/cysgod a dŵr. Mae un o'r polytwneli dan gysgod yn llwyr ar gyfer rhywogaethau sy'n goddef cysgod. Defnyddir nwy i wresogi rhai o'r twneli ac mae dau groen gan rai er mwyn rhoi insiwleiddiad ychwanegol. Mae'n hanfodol bwysig bod awyru da yn y polytwneli er mwyn iechyd y planhigion. Mae Crûg yn defnyddio twneli y mae'n bosib tynnu'r ochrau i ffwrdd er mwyn caniatáu'r cylchrediad aer mwyaf posib yn ystod yr haf.

O fewn y twneli gosodir y planhigion mewn grwpiau yn ôl gofynion golau, gwres a dŵr. Mae'r systemau dyfrhau uwchben yn defnyddio dŵr o'r prif gyflenwad a hidlwyd er mwyn cael gwared â'r clorin. Mae falf ar bob chwistrellydd er mwyn gallu rheoli llif y dŵr cymaint â phosib. Yn yr haf mae'r gwaith dyfrhau'n digwydd yn awtomatig, ar adegau eraill o'r flwyddyn fe'i rheolir â llaw yn unol â gofynion y planhigion.

### **TYFU YN Y CAE**

Plennir llawer o'r planhigion ar Fferm Crûg allan yn y cae. I ddechrau chwistrellir yr ardaloedd a ddefnyddir er mwyn lladd y gwair. Yna cânt eu haredig a'u palu â pheiriant ddwywaith. Mae'r system gaeau hyn yn cadw costau i lawr ac yn rhyddhau lle ar gyfer y planhigion sydd angen amgylcheddau rheoledig y polytwneli. Hefyd mae angen llai o lafur ar blanhigion a dyfir yn y cae ac fel rheol maent yn cynhyrchu planhigion gwytnach na thyfu mewn potiau.

### **PLÂU AC AFIECHYD**

Defnyddir yr isafswm posib o gemegolion ar Fferm Crûg. Gwneir y rhan fwyaf o'r gwaith chwynnu arferol ar Fferm Crûg â llaw, a defnyddir ychydig o beledi malwod. Anogir anifeiliaid llesol (e.e. draenogod) a phryfed (e.e. chwilog) trwy ddefnyddio deunyddiau teneuo o'r goedlan a osodir mewn rhenciau trwy'r safle. Mae'r goedlan yn denu adar ac maent hwythau hefyd yn helpu i gadw niferoedd pryfaid a malwod i lawr. Mae llygod a llygod y gwair yn y broblem yn y polytwneli ac fe'u rheolir trwy osod maglau gyda gwenwyn. Mae gwiwerod a chwingod yn her i'r safle. Fe'u rheolir yn bennaf trwy saethu a defnyddio cŵn.

### **Y FARCHNAD**

Er bod planhigion yn cael eu gwerthu'n uniongyrchol i'r cyhoedd o siop ar y safle, mae'r rhan fwyaf o'r gwerthiant yn digwydd trwy gyfrwng archebion trwy'r post ( a archebir yn fwyfwy trwy gyfrwng siop ar lein Crûg). Mae'r gwerthiant trwy'r post wedi bod yn llwyddiannus iawn a datblygwyd system becynnu unigryw sy'n ei gwneud yn bosib anfon planhigion o bob math a maint i bob cwr o Ewrop.

Bydd marchnad dda bob amser ar gyfer planhigion anarferol ac arbenigol. Pan ddaw planhigion penodol yn fwy poblogaidd gall hyn arwain at ostyngiad yn y pris. Os yw hyn yn digwydd mae Fferm Crûg yn edrych am blanhigion addurnol anarferol eraill y gallant eu marchnata. Mae marchnad dda bob amser ar gyfer rhai sy'n blodeuo'n gynnar. Mae planhigion sy'n arogleuo'n dda a rhai sy'n rhoi ffrwythau yn gwerthu'n dda hefyd. Gofynnir pris uwch am blanhigion mwy. Un fantais o gynhyrchu o had yw bod planhigion yn fwy tebygol o gynhyrchu ffrwythau, sy'n eu gwneud yn fwy atyniadol i'r prynwr.

I gael mwy o wybodaeth am Blanhigion Fferm Crûg ac i edrych ar eu catalog, ewch i

[www.crug-farm.co.uk](http://www.crug-farm.co.uk)